## 32. HERWGIPIWYD!
## (Stori o Nepal)

Ar stryd ar gyrion dinas Kathmandu crwydrai llanc deuddeg oed o'r enw Ram o gwmpas gan gicio hen dun gwag mewn diflastod a chan bendroni beth i'w wneud nesaf. Yn sydyn, dyma sŵn lorri fawr yn hyrddio i lawr y ffordd i gyfeiriad Ram. Gyda'i brêcs yn sgrechian yn uchel a mwg du'n tasgu ohoni fe stopiodd y lorri wrth ei ochr. Fel pob lorri a deithiai rhwng Nepal ac India gyfagos roedd hi'n fôr o liw. Ar y bympars disgleiriai tinsel. Peintiwyd addurniadau cain ar ei hochrau. 'Sut mae'r hwyl, 'ngwas i?' gofynnodd y gyrrwr a gwên ar ei wyneb wrth ymestyn ei ben allan o ffenest y cab addurniedig. 'Hoffet ti gael mynd am dro yn fy mws i?'

Wel am gynnig gwerth chweil! Nid oedd Ram yn berchen ar feic hyd yn oed. Roedd y syniad o gael rasio i lawr y stryd ddwy fetr uwchlaw'r llawr yn dod â gwên i'w wyneb.

'Ydech chi o ddifri?'

'Siŵr iawn. Mewn â ti!' Ymestynnodd y gyrrwr gan agor y drws a llamodd Ram i'r sedd wrth ei ochr.

Wrth gwrs roedd yn gamgymeriad mawr. Onid oes rheol ynglŷn â hyn? Peidiwch â derbyn lifft gan ddieithriaid. Ond cofiwch fod Ram yn byw yn Nepal, ac nid oedd erioed wedi cael ei rybuddio am

beryglon o'r fath. Rhuodd yr injan ac i ffwrdd ag ef yn llawn cyffro.

Tri o'r gloch y prynhawn oedd hi pan ddigwyddodd hyn. Am chwech o'r gloch y noswaith honno anfonodd Bhawali, mam Ram, un o'i phlant iau i chwilio amdano gan fod swper yn barod. Bu bywyd yn greulon wrth Bhawali. Roedd blynyddoedd wedi pasio bellach ers i'w gŵr ei gadael i ddwyn y teulu ifanc i fyny ar ei phen ei hun. Ram oedd yr hynaf o'i phlant. Roedd yn llond llaw ond fe'i carai'n fawr. Felly, pan ddychwelodd y plentyn adref wedi methu dod o hyd i'w frawd yn unman, aeth Bhawali ei hun i chwilio amdano ar unwaith. 'Ydech chi wedi gweld Ram yn rhywle?' holai ei chyfeillion a'i chymdogion.

'Na.' Ysgydwodd pawb eu pennau. Yna, cofiodd un cymydog iddo weld y bachgen yn dringo i mewn i lorri. Lorri ac iddi blât rhifau Indiaidd.

'Lorri o India!' Trawodd y gwirionedd Bhawali fel ergyd o wn a dechreuodd feichio crio. Roedd yna bobl yn India fyddai'n fodlon talu arian mawr am blant o Nepal. 'Maen nhw wedi mynd â Ram i India. Mae o wedi cael ei herwgipio!' llefodd.

Y bore canlynol aeth Bhawali i'r ysgol lle roedd hi'n gweithio a dywedodd yr hanes wrth y prifathro. Gan mai ysgol fechan Gristnogol oedd hi roedd pawb yn drist. Gofynnodd Bhawali am amser i ffwrdd i fynd i chwilio am ei mab. 'Cymerwch faint bynnag o amser bydd ei angen,' anogodd y prifathro hi. 'Fe fyddwn ni'n gweddïo trosoch chi a'ch mab.'

Felly, aeth Bhawali i chwilio am Ram, a gweddïodd gweithwyr yr ysgol a'r disgyblion ar i Dduw ddod â Ram adref yn holliach. Ond mae India'n wlad anferthol. Am bythefnos gron chwiliodd Ram. Am bythefnos gron gweddïodd plant yr ysgol – ond nid oedd dim yn tycio. O'r diwedd bu'n rhaid i Bhawali roi'r chwilio i fyny a dychwelyd adref i Kathmandu.

Roedd pawb yn siomedig o'i gweld yn dod adref ar ei phen ei hun. Roedd dau ddisgybl, Helen a Jane, mor drist nes iddynt benderfynu gweddïo tros Ram bob dydd. Aeth amser heibio. Peidiodd nifer â gweddïo, ond dal ati a wnaeth y ddwy ferch. Un mis ... chwe mis ... naw mis. Aeth blwyddyn gyfan heibio. Roedd y rhan fwyaf o bobl wedi anghofio amdano bellach, ond nid felly

Helen a Jane. Rywbryd bob dydd byddai'r ddwy ferch yn plygu pen gan weddïo ar i Ram ddod adref yn ddiogel.

Bum can cilometr i ffwrdd, yn nhref Indiaidd Nagpur, roedd llanc ifanc hynod o drist o Nepal yn gweithio fel caethwas mewn cartref Indiaidd. Pe gallai Ram droi'r cloc yn ôl ni fyddai byth wedi mynd am dro yn y lorri! Roedd oriau cyntaf y daith yn llawn antur a mwynhad – taranu i lawr llethrau serth Nepal fel mellten i wlad newydd gyffrous. Ond nawr doedd dim mwy i'w fywyd na diflastod diddiwedd gwaith bob dydd. Rhaid oedd codi'n gynnar bob bore i danio'r tân. Rhaid oedd ysgubo'r llawr, cario dŵr, glanhau'r llysiau, cario'r siopa. Yr un hen drefn – ddydd ar ôl dydd.

Un diwrnod, bymtheg mis ar ôl iddo gael ei gipio, aeth Ram i'r farchnad i brynu llysiau. Fel arfer rhaid oedd ymwthio'i ffordd rhwng y tyrfaoedd. Ac fel arfer roedd yn rhy flinedig a hiraethus i fwynhau'r olygfa liwgar o'i amgylch. Ond yna dyma rywun yn dal ei sylw: ffigwr wedi ei wisgo mewn cap melyn ac oren o Nepal, yn cario dau fag yn llawn nwyddau. Roedd rhywbeth yn gyfarwydd amdano. Culhaodd llygaid y bachgen. Roedd yn edrych fel . . . na, doedd bosib . . .

'Esgusodwch fi!' Gwthiodd a phwniodd ei ffordd trwy'r bobl nes cyrraedd ochr y marchnatwr. 'Esgusodwch fi, ond ai chi yw Ramesh y siopwr o Kathmandu?'

'Efallai wir. Pwy sy'n holi?' Ymddangosai'r gŵr yn chwilfrydig.

'Y fi. Ram. Rwyf finnau o Kathmandu hefyd,' meddai Ram yn eiddgar.

'A beth mae llanc o Nepal yn ei wneud yn Nagpur?'

'Rwy'n gaethwas. Cefais fy herwgipio,' meddai'r bachgen a'i wefusau'n grynedig a'i lais yn llawn hiraeth. 'Dwi'n casáu'r lle hwn.'

'Wel . . . ' Crychodd y siopwr ei dalcen yn feddylgar. Yna gafaelodd yn Ram gerfydd ei benelin. 'Y ffordd yma,' meddai'n gyflym. Daethai i Nagpur i brynu stoc i'w siop, ond yn ôl pob golwg byddai'n dychwelyd adref â llawer mwy nag yr oedd wedi bargeinio amdano.

Ac felly, daeth y mab colledig adref. Bymtheg mis ar ôl iddo ddiflannu, cerddodd Ram oddi ar y bws, i lawr y stryd ac i mewn trwy ddrws ffrynt ei gartref.

‘Ram! Ram! Rwyt ti’n ôl! Fedra i ddim credu’r peth.’ Rhedodd Bhawali ato a’i gofleidio, a dagrau o lawenydd yn llifo i lawr ei bochau.

A gallwch ddychmygu sut y teimlai Helen a Jane pan glywsant y newydd da. Ar un lefel ymddangosai’r cwbl fel cyd-ddigwyddiad rhyfeddol – Ram yn digwydd cyfarfod cymydog cyfeillgar oedd yn fodlon talu iddo deithio adref. Ond fel y dywedodd rhywun rywdro, ‘Pan fyddaf yn gweddïo, mae cyd-ddigwyddiadau’n digwydd. Pan beidiaf â gweddïo nid ydynt yn digwydd.’ Roedd Helen a Jane wedi gweddïo drwy’r adeg. Roeddent wedi parhau i ofyn i Dduw warchod Ram. Buont yn amyneddgar. Buont yn barod i ddyfalbarhau. Bu’r ddwy’n ffyddlon.

Ac fe atebodd Duw eu gweddïau.

**HYD:** 6–7 munud

**NEGES:** Yr angen i ddyfalbarhau mewn gweddi.

**DARLLEN:** Luc 18: 1–8